**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

6 Chwefror 2019

Annwyl Lesley

**Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (SICM(5)18)**

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas â Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (y Rheoliadau) yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2019.

Byddwch yn gwybod bod y Rheoliadau wedi cael eu cynnig yn wreiddiol i ddilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol yn Senedd y DU ym mis Tachwedd 2018. Pan osodwyd y Rheoliadau drafft gwreiddiol gerbron Senedd y DU ar gyfer eu sifftio o dan bwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, gosododd Llywodraeth Cymru ddatganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 30C, yn crynhoi effaith y Rheoliadau drafft ac yn hysbysu'r Cynulliad bod cydsyniad wedi'i roi i Weinidogion y DU weithredu mewn perthynas â Chymru. Trafodwyd y datganiad hwn yn ein cyfarfod ar 12 Tachwedd 2018.

Rydym bellach wedi nodi na wnaed y Rheoliadau drafft yn ffurfiol. Yn eu lle, gosodwyd y Rheoliadau newydd hyn a fydd yn dilyn y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Byddwch hefyd yn ymwybodol bod y Rheoliadau newydd hyn yn wahanol i'r fersiwn a osodwyd gerbron Senedd y DU ym mis Tachwedd. Y gwahaniaeth pwysicaf at ein dibenion ni yw bod y Rheoliadau newydd yn diwygio Deddf Amaethyddiaeth 1970, ac felly mae'n ofynnol i osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Ar 18 Ionawr 2019, gosodasoch y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol angenrheidiol. Nid yw Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, wedyn wedi gosod datganiad ysgrifenedig wedi’i ddiweddaru yn crynhoi effaith y Rheoliadau yn eu ffurf bresennol nac yn cadarnhau a roddwyd cydsyniad atodol i Weinidogion y DU.

Rydym o’r farn bod y Rheoliadau newydd yn gyfres wahanol o reoliadau, ac, am y rheswm hwnnw, dylai Llywodraeth Cymru fod wedi llunio datganiad ysgrifenedig newydd yn unol â Rheol Sefydlog 30C.

Yn unol â’n hadroddiad cynnydd diweddar ar graffu ar is-ddeddfwriaeth sy’n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau mai eich bwriad yw gosod cynnig mewn perthynas â’r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn.

Byddwn yn ddiolchgar i gael ymateb gennych, yn nodi’ch rhesymau pam na osodwyd datganiad ysgrifenedig diwygiedig gerbron y Cynulliad, erbyn 14 Chwefror 2019.

Yn gywir



**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.